



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Gofal Iechyd Parhaus y GIG ar Gyfer Oedolion yng Nghymru

Taflen Gwybodaeth i'r Cyhoedd

Awst 2016



© Hawlfraint y Goron 2016

WG29058

ISBN digidol 978-1-4734-7318-8

ISBN argraffu 978-1-4734-7329-4

Beth yw gofal iechyd parhaus y GIG?

Gofal iechyd parhaus y GIG (a elwir hefyd yn GIP) yw'r enw a roddir i un neu fwy o wasanaethau sy'n cael eu trefnu a'u hariannu yn gyfan gwbl gan y GIG ar gyfer pobl sydd wedi'u hasesu fel rhai sydd ag 'angen iechyd sylfaenol' (caiff hyn ei egluro yn nes ymlaen).

Gallwch dderbyn GIP mewn unrhyw leoliad gan gynnwys yn eich cartref eich hun neu mewn cartref gofal.

Yn eich cartref eich hun, golyga hyn y bydd y GIG yn talu am ofal iechyd (er enghraifft, gwasanaethau gan nyrs gymunedol neu therapydd arbenigol) a gofal cymdeithasol, ond nid yw'n cynnwys cost y canlynol:

- bwyd
- llety
- cymorth cyffredinol yn y cartref.

Mewn cartref gofal, os ydych yn gymwys i gael GIP, mae'r GIG yn talu cyfanswm ffioedd eich cartref gofal.

Ariennir GIP gan y GIG, yn wahanol i help gwasanaethau cymdeithasol, y gellir codi ffi amdano yn dibynnu ar eich incwm, eich cynilion a'ch asedau cyfalaf.

Pwy sy'n gymwys i gael gofal iechyd parhaus y GIG?

Os bydd asesiadau gweithwyr proffesiynol amrywiol yn dangos mai angen iechyd yw'ch angen sylfaenol, dylech fod yn gymwys i gael GIP.

Nid yw'n dibynnu ar gyflwr, clefyd na diagnosis penodol yr unigolyn nac ar bwy sy'n darparu'r gofal na ble y caiff ei ddarparu.

Mae'n bosibl y bydd angen llawer o help a chymorth ar bobl o ganlyniad i salwch neu gyflwr, ond efallai na fyddant wedi'u hasesu fel rhywun ag 'angen iechyd sylfaenol'.

Mae ystyr 'angen iechyd sylfaenol' yn wahanol i 'Ofal Iechyd Sylfaenol', sef term a ddefnyddir i ddisgrifio'r mathau o wasanaethau iechyd cymunedol y gallwch eu cael yn uniongyrchol eich hunan, er enghraifft eich Meddyg Teulu, Fferyllydd, Nyrs Practis neu Ymwelydd Iechyd.

Mae'n hawdd cymysgu'r ddau derm.

Sut caiff fy angen iechyd sylfaenol ei asesu?

Caiff eich angen iechyd sylfaenol ei asesu drwy roi sylw, gyda chi a'ch teulu, i bob un o'ch anghenion gofal, gan ystyried pedwar maes allweddol:

1. **Natur** – mae hyn yn disgrifio eich anghenion a'r math o anghenion sydd gennych e.e. corfforol, iechyd meddwl neu seicolegol. Mae hefyd yn disgrifio effeithiau eich anghenion arnoch chi a'r math (ansawdd) o help sydd ei angen arnoch er mwyn rheoli eich anghenion.
2. **Dwysedd** – mae hyn yn disgrifio un neu fwy o anghenion (nifer) a allai fod mor ddifrifol fel bod angen rhywfaint o ofal parhaus.
3. **Cymhlethdod** – mae hyn yn disgrifio sut mae symptomau'n rhyngweithio, gan eu gwneud yn anodd eu rheoli, ac mae angen sgiliau i fonitro'r symptomau, trin y cyflwr a/neu reoli'r gofal.
4. **Natur anrhagweladwy** – mae hyn yn disgrifio i ba raddau mae anghenion unigolyn yn amrywio a pha mor anodd yw hi i reoli'r anghenion hynny. Mae hefyd yn disgrifio lefel y risg i iechyd yr unigolyn os na roddir y gofal iawn yn gyflym.

Ble fydda i'n cael fy asesu?

Pryd bynnag y bydd eich cyflwr yn caniatáu, ni chaiff eich anghenion gofal tymor hirach eu hasesu ar ward ysbyty aciwt. Fel arfer, gallwch ddisgwyl cael eich trosglwyddo i amgylchedd tawelach, megis ysbyty cymuned, cyfleuster sydd wedi'i drefnu'n arbennig mewn cartref gofal, neu hyd yn oed eich cartref eich hun gyda chymorth dwys, wrth i chi gael eich traed tanoch a chael eich asesu.

Pwy fydd ynghlwm wrth hyn a phwy fydd yn penderfynu a ydw i'n gymwys?

Y GIG fydd yn penderfynu a ydych yn gymwys i gael GIP. Bydd yn cydweithio â'r awdurdod lleol a gweithwyr proffesiynol eraill sy'n ymwneud â'ch gofal drwy 'dîm amlddisgyblaethol' ac yn sicrhau eich bod chi a phwy bynnag sy'n gofalu amdanoch yn cymryd rhan. Os oes

angen eiriolwr arnoch i'ch cynorthwyo drwy'r broses asesu, bydd y GIG yn helpu i drefnu hyn i chi os byddwch am iddo wneud hynny.

Ystyr 'tîm amlddisgyblaethol' yw tîm sy'n cael ei lunio o nifer o 'ddisgyblaethau' proffesiynol megis meddygon, nyrsys, therapyddion a gweithwyr cymdeithasol. Mae'n bosibl y byddwch yn clywed y term yn cael ei fyrrhau i 'MDT' yn y Saesneg, a bydd yn cynnwys dau neu fwy o'r gweithwyr proffesiynol sy'n ymwneud â'ch gofal. Gallant fod o wasanaethau iechyd neu ofal cymdeithasol. Mae'n bosibl y bydd aelodau'r tîm hwn yn ymweld â chi ar wahân i gynnal yr asesiad cyn i bawb gyfarfod er mwyn cyflawni'r darlun llawn o'ch anghenion gofal.

Gallwch ddisgwyl cael enw un 'gweithiwr proffesiynol arweiniol', sef eich cydgysylltydd gofal, a'r gweithiwr hwn fydd eich prif bwynt cyswllt. Bydd yn eich arwain drwy'r broses, yn sicrhau bod gennych y wybodaeth sydd ei hangen arnoch ac yn ateb eich cwestiynau.

Oes rhaid i mi gytuno i'r asesiad gael ei gynnal?

Oes. Rhaid i chi gytuno cyn i'r broses asesu gychwyn a chyn i unrhyw benderfyniadau gael eu gwneud.

Er mwyn sicrhau bod gennych yr holl wybodaeth i allu cytuno i'r asesiad, bydd eich cydgysylltydd gofal yn cwrdd â chi i egluro'r broses a sicrhau bod gennych ddigon o wybodaeth i wneud eich penderfyniad. Dylai'r wybodaeth hon gynnwys effaith bosibl ar unrhyw fudd-daliadau neu Daliadau Uniongyrchol rydych yn eu cael ar hyn o bryd.

Pan fyddwch wedi rhoi eich caniatâd, cedwir cofnod i ddweud eich bod wedi cytuno i'r asesiad gael ei gynnal.

Beth fyddai'n digwydd pe bawn i'n gwrthod cael fy asesu neu'n cytuno ac yna'n newid fy meddwl?

Os ydych yn gwrthod cytuno i gael asesiad, mae'n golygu na all y GIG fod yn gyfrifol am ddarparu'ch gofal i gyd a thalu amdano. Ond bydd yn parhau i ddarparu gwasanaethau'r GIG yn ôl yr angen e.e. nyrs ardal neu feddyg teulu. Mae'n bosibl y codir tâl arnoch am unrhyw wasanaethau mae'r awdurdod lleol yn eu darparu.

Gallwch newid eich meddwl unrhyw bryd yn ystod y broses. Os newidiwch eich meddwl ynglŷn â'ch asesiad, bydd angen cofnodi'r rheswm pam i chi newid eich meddwl. Mae'n bosibl y gofynnir i chi arwyddo ffurflen i ddangos mai'ch penderfyniad chi yw hwn.

Beth fyddai'n digwydd pe bawn i'n gymwys ond yn gwrthod gwasanaethau GIP mae'r GIG yn eu cynnig?

Os ydych wedi cael eich asesu fel rhywun sy'n gymwys i gael GIP ond yna'ch bod yn penderfynu nad ydych am dderbyn y gwasanaethau GIP sy'n cael eu cynnig, mae'n golygu na all y GIG fod yn gyfrifol am ddarparu'ch gofal i gyd a thalu amdano.

Mae'n bosibl y bydd modd i'r GIG a'r awdurdod lleol ddiwallu eich anghenion (gelwir hyn yn becyn gofal ar y cyd) ond mae'n bosibl y codir tâl arnoch am rai o wasanaethau'r awdurdod lleol. Byddai hyn yr un fath pe baech chi'n gwrthod cael eich asesu am gymhwysedd i gael GIP.

A fydd fy anghenion gofal yn cael eu hadolygu?

Byddant. Os gwelir eich bod yn gymwys i gael GIP, byddwch yn cael cyfrannu at y gwaith o ddatblygu cynllun gofal sy'n dweud sut bydd eich anghenion yn cael eu diwallu. Ymhen dim mwy na 3 mis o ddechrau derbyn eich gwasanaethau GIP, bydd aelod o dîm y GIG a phobl eraill sy'n ymwneud â'ch gofal yn trefnu i adolygu'ch anghenion a'r gofal sydd ei angen arnoch. Byddwch yn cymryd rhan yn yr adolygiad hwn.

Dylid cael eich caniatâd cyn i'r broses adolygu ddechrau. Yn gyffredinol, dylai adolygiadau wedi'u cynllunio gael eu cynnal ymhen 3 mis, ac yna bob blwyddyn. Ond gallant gael eu cynnal unrhyw bryd os ymddengys bod eich iechyd wedi newid yn sylweddol.

Yn eich adolygiad (wedi'i gynllunio neu mewn ymateb i newid), bydd eich cydgysylltydd gofal yn trefnu cyfarfod amlddisgyblaethol i ailasesu eich anghenion gofal a'ch cymhwysedd parhaus i gael GIP. Mae'n bosibl y bydd y math o help a gwasanaethau sydd eu hangen arnoch yn newid ac efallai na fydd gennych angen iechyd sylfaenol mwyach. Os felly, bydd eich cydgysylltydd gofal yn trafod gyda chi

y newidiadau sydd angen eu gwneud i'ch cynllun gofal a ph'un a fydd gofyn i chi felly gyfrannu at gost eich gofal ai peidio.

Beth os nad ydych i'n gymwys i gael gofal iechyd parhaus y GIG?

Os ydych yn **mynd adref** ac nad ydych yn gymwys i gael GIP, mae'n bosibl y byddwch dal i fod angen gwasanaethau iechyd a/neu ofal cymdeithasol, wedi'u trefnu ar y cyd, er mwyn diwallu'ch anghenion unigol.

Efallai y bydd rhaid i chi dalu am rywfaint neu'r cyfan o'r gofal a ddarperir gan wasanaethau cymdeithasol, er bydd y GIG yn dal i ddiwallu eich anghenion gofal iechyd.

Os bydd angen eich rhoi chi mewn **cartref** nyrsio ac nad ydych yn gymwys i gael GIP, gallwch ddisgwyl cael cyfuniad o:

- Wasanaethau gofal iechyd a ddarperir gan y GIG (meddygon teulu, therapyddion ac arian drwy Ofal Nyrsio a Ariennir – gweler isod).
- Gwasanaethau cymdeithasol a ddarperir gan yr awdurdod lleol ar sail prawf modd. Mae'n bosibl y bydd angen i'r awdurdod lleol eich asesu'n ariannol er mwyn penderfynu faint ddylech ei dalu tuag at eich gofal personol a'ch llety os ydych mewn cartref gofal.

Os ydych yn byw mewn **cartref preswyl** a bod angen rhywfaint o ofal nyrs arnoch, darperir y gofal hwn gan y GIG trwy'r gwasanaeth nyrsio cymunedol.

Beth yw Gofal Nyrsio a Ariennir gan y GIG?

Mae cartrefi nyrsio'n cyflogi nyrsys cofrestredig i roi gofal nyrsio i'r rheini sydd ei angen. 'Gofal Nyrsio a Ariennir' yw'r taliad mae'r GIG yn ei wneud tuag at y costau hyn. Os nad yw person yn gymwys i gael GIP, mae'n bosibl y bydd yn gymwys i gael Gofal Nyrsio a Ariennir, a bydd hyn yn cael ei benderfynu fel rhan o asesiad y GIP. I dalu am y gofal nyrsio hwn, mae'r GIG yn rhoi taliad uniongyrchol i'r cartref gofal.

Gall nyrsio cofrestredig gynnwys llawer o agweddau gwahanol ar ofal.

Fel rheol bydd y bobl sydd angen gofal nyrsio cofrestredig yn cael rhai o'r canlynol:

- Goruchwyllo neu fonitro anghenion nyrsio.
- Cynllunio gofal, adolygu'ch anghenion a gwneud newidiadau i'r cynllun gofal.
- Nodi problemau iechyd posibl ac ymdrin â nhw, er enghraifft, drwy eu hatgyfeirio at weithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill megis meddygon, therapyddion ac ati.
- Monitro eich meddyginiaeth.

Pwy sy'n gymwys i gael Gofal Nyrsio a Ariennir?

Dylech gael Gofal Nyrsio a Ariennir:

- Os ydych yn byw mewn cartref nyrsio ac nad ydych yn gymwys i gael GIP ond bod eich asesiad yn dal i nodi bod angen gwasanaethau nyrs gofrestredig arnoch.
- Os nad ydych yn derbyn gofal nyrs gofrestredig mewn unrhyw ffordd arall e.e. gan nyrsys ardal.

Beth ddylwn i ei wneud os na fyddaf i'n fodlon â chanlyniad yr asesiad?

Mae hawl gennych holi'r Bwrdd Iechyd Lleol i adolygu'r penderfyniad a wnaed am eich cymhwysedd i gael Gofal Iechyd Parhaus y GIG neu Ofal Nyrsio a Ariennir.

Os yw'ch asesiad yn dweud nad ydych yn gymwys i gael GIP ac nad ydych yn cytuno â hyn, gallwch drafod hyn â'r gweithwyr gofal iechyd proffesiynol sy'n gofalu amdanoch yn y lle cyntaf. Dylai'r GIG gydweithio'n agos â chi a'r tîm a gynhaliodd eich asesiad, er mwyn datrys y sefyllfa mewn modd anffurfiol a sicrhau hefyd fod yr holl asesiadau a gweithdrefnau angenrheidiol wedi'u cyflawni'n gywir.

Gallwch ofyn am adolygiad annibynnol o'r penderfyniad os nad ydych yn fodlon â'r isod:

- Y drefn a ddilynodd y Bwrdd Iechyd Lleol wrth benderfynu a ydych yn gymwys neu
- Sut cafodd yr 'angen iechyd sylfaenol' ei ystyried.

Os bydd y Bwrdd Iechyd Lleol yn cadw at ei benderfyniad gwreiddiol a'ch bod am fynd â'r mater ymhellach, gallwch ofyn am gael cwyno drwy weithdrefn gwyno'r GIG. Os byddwch yn parhau'n anfodlon gallwch gysylltu â'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus. Bydd eich Bwrdd Iechyd Lleol yn rhoi rhagor o fanylion i chi.

Os byddwch yn anfodlon ag unrhyw agwedd arall ar ofal y GIG, gallwch ofyn am gael defnyddio gweithdrefn gwyno'r GIG.

Ble alla i gael rhagor o wybodaeth am Ofal Iechyd Parhaus y GIG neu Ofal Nyrsio a Ariennir?

Am fwy o wybodaeth cliciwch ar y dolenni canlynol i fynd i wefan Llywodraeth Cymru yn Gymraeg a Saesneg.

www.gov.wales/topics/health/nhswales/healthservice/chc-framework/?lang=cy

www.gov.wales/topics/health/nhswales/healthservice/chc-framework/?lang=en

Fel arall, ewch i'r safle Gofal Cymhleth – Gwybodaeth a Chymorth

www.cciss.org.uk

www.gcsgc.org.uk

Gallwch holi'r meddyg neu'r nyrs sy'n gyfrifol am eich gofal.

Gallwch hefyd gysylltu â'r Bwrdd Iechyd Lleol yn eich ardal chi.

I gael manylion y Byrddau Iechyd Lleol ewch i:

www.wales.nhs.uk/eingwasanaethau/cyfeiriadur

I gael gwybodaeth am Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ewch i:

www.ombwdsmon-cymru.org.uk

Mae fersiynau Braille a sain o'r daflen hon ar gael ar gais gan eich Bwrdd Iechyd Lleol.

Y Broses GIP

Mae cael eich derbyn i'r ysbyty neu amgylchiadau eraill yn awgrymu y gallai fod angen gofal a chymorth tymor hirach arnoch.

Byddwch yn cael cydgysylltydd gofal penodol a fydd yn goruchwyllo'r broses, yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi ac yn ateb eich cwestiynau.

Mae'n bosibl y cewch eich trosglwyddo i raglen 'cam i lawr' wrth i chi gael eich traed tanoch a chael asesiad i ganfod pa ofal a chymorth sydd eu hangen arnoch.

Bydd eich cydgysylltydd gofal yn gofyn am eich caniatâd ac yn dechrau trefnu'r asesiad. Bydd hyn yn cynnwys nifer o aelodau'r tîm sy'n gofalu amdanoch.

Bydd eich cydgysylltydd gofal yn egluro'r broses i chi ac yn rhoi'r Daflen Gwybodaeth i'r Cyhoedd hon i chi.



Rydych chi yma

Mae'n bosibl y bydd angen i aelodau'r tîm gydweithio â chi i gynnal asesiadau ychwanegol i sicrhau bod ganddynt yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnynt.

Bydd eich cydgysylltydd gofal yn eich gwahodd i gyfarfod â'r tîm er mwyn trafod eich anghenion a phenderfynu a ydych yn gymwys i gael gwasanaethau GIP a ariennir. Bydd yn rhoi taflen arall i chi, sef 'Eich paratoi ar gyfer Cyfarfod Cymhwysedd GIP'.

Ar ôl y cyfarfod gwneir argymhelliad ynghylch a ydych chi'n gymwys i gael GIP ai peidio. Byddwch yn cael eglurhad ysgrifenedig o'r rhesymau am y penderfyniad hwn.

Bydd eich cydgysylltydd gofal yn cysylltu â chi ychydig ddyddiau'n ddiweddarach i drafod beth ddigwyddodd yn y cyfarfod, beth fydd yn digwydd nesaf a beth i'w wneud os byddwch yn anfodlon â'r canlyniad.

Cytunir â chi ar y gwasanaethau fydd eu hangen arnoch a chaiff y trefniadau eu gwneud. Gallwch ddisgwyl i'ch anghenion gael eu hadolygu o fewn 3 mis i'r gwasanaethau gychwyn ac o leiaf unwaith y flwyddyn wedi hynny.